**<u>Pwyllgor Materion Ewropeaidd</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **31 Ionawr 2001** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora X, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **Ehangu'r Undeb Ewropeaidd** |

Mae'r papur sy'n amgaeedig, a baratowyd gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru ar gyfer ei aelodau yng Nghymru iddynt ymgynghori arno, yn cynnig strategaeth ar gyfer y modd y mae Cymru'n ymwneud â gwledydd a rhanbarthau o Ddwyrain Ewrop y disgwylir iddynt ddod yn aelodau o'r UE ar ôl 2003. Mae'r llythyr esboniadol at aelodau Canolfan Ewropeaidd Cymru'n datgan:

*"The Strategy is intended as a framework for the partnership to use in engaging with the challenge of enlargement. As such it can only be useful if partners feel that it corresponds with your own approach to relationships with the applicant states. Obviously not every link needs to fall within the scope of this framework, but the aim is to find an approach which achieves the synergies offered by a Team Wales response."*

Fel aelod o bartneriaeth Canolfan Ewropeaidd Cymru, gall y Cynulliad gyflwyno'i farn ar y strategaeth ddrafft i Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Gwahoddir Aelodau'r Cynulliad i roi eu barn ar y ddogfen. Un mater y gallai'r Aelodau fod am ei ystyried yw i ba raddau y dylai'r argymhellion a nodir yn y fan hon ddylanwadu ar neu hyd yn oed bennu cysylltiadau'r Cynulliad fel llywodraeth gyda llywodraethau rhanbarthau yn Nwyrain Ewrop. Er enghraifft, a ddylai'r Cynulliad ddilyn targedau rhanbarthol Hwngari a gynigiwyd gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru ar gyfer Tîm Cymru yn nhudalennau 14-16 o'r ddogfen trwy geisio sefydlu cysylltiadau agosach rhwng y llywodraethau, ynteu a fyddai'n well i'r Cynulliad barhau i fod yn hyblyg o ran ei allu i ymateb i gynigion fel y deuant i law? A faint o adnoddau y dylai'r Cynulliad fod yn barod i'w hymroi i sefydlu cysylltiadau o'r fath gyda gwledydd a rhanbarthau Dwyrain Ewrop?

Gwahoddir barn y Pwyllgor.

**Ionawr 2001 Yr Is-adran Materion Ewropeaidd**